# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Rheolwyr safle i fod yn bersonau addas a phriodol*

### 28 Gofyniad bod rhaid i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol

(1) Ni chaiff perchennog tir achosi na chaniatáu i unrhyw ran o'r tir gael ei defnyddio fel safle rheoleiddiedig oni bai (yn ychwanegol at yr angen i'r perchennog ddal trwydded safle) bod yr awdurdod lleol y mae'r tir wedi ei leoli yn ei ardal—

(a) wedi ei fodloni bod y perchennog yn berson addas a phriodol i reoli'r safle neu (os nad y perchennog sy'n rheoli'r safle) fod person a benodwyd i wneud hynny gan y perchennog yn berson addas a phriodol i wneud hynny, neu

(b) gyda chydsyniad y perchennog, wedi penodi person ei hun i reoli'r safle.

(2) Os bydd perchennog tir sy'n dal trwydded safle ar gyfer y tir yn torri is-adran (1), caiff yr awdurdod lleol y mae'r tir wedi ei leoli yn ei ardal wneud cais i'r tribiwnlys eiddo preswyl am orchymyn yn dirymu'r drwydded safle.

(3) Mae person sy'n mynd yn groes i'r gofyniad a osodir gan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy.

(5) Os collfernir y perchennog tir sy'n dal trwydded safle ar gyfer tir am drosedd o dan is-adran (3) mewn perthynas â'r tir ac os yw'r person wedi ei gollfarnu o'r trosedd mewn perthynas â'r tir ar 2 neu ragor o achlysuron blaenorol, caiff y llys ynadon y collfernir y perchennog ger ei fron, ar gais gan yr awdurdod lleol y mae'r tir wedi ei leoli yn ei ardal, wneud gorchymyn sy'n dirymu trwydded safle'r perchennog ar y diwrnod a bennir yn y gorchymyn.

## 29 Penderfynu a yw person yn addas a phriodol

(1) Wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle rheoleiddiedig rhaid i awdurdod lleol roi sylw i bob mater y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(2) Mae'r materion y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw iddynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o fewn is-adran (3) neu (4).

(3) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person—

(a) wedi cyflawni unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei restru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau mae gofynion ynglŷn â hysbysu yn gymwys iddynt),

(b) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth gynnal unrhyw fusnes, neu mewn cysylltiad â'i gynnal, neu

(c) wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â thai (gan gynnwys cartrefi symudol) neu landlord a thenant.

(4) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n dangos bod unrhyw berson sydd neu a fu gynt yn gysylltiedig â'r person (ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn is-adran (3), a

(b) os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol fod y dystiolaeth yn berthnasol i'r cwestiwn a yw'r person yn berson addas a phriodol i reoli safle rheoleiddiedig.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle rheoleiddiedig.

(6) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu nad yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r person am y rhesymau dros y penderfyniad ac o hawl y person i apelio o dan baragraff (b), a

(b) caiff y person, cyn pen y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y penderfyniad, apelio yn erbyn y penderfyniad i dribiwnlys eiddo preswyl.